

CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

TEITHIAU CWCH CAERDYDD: PRINCESS KATHARINE



Mae'r busnes teuluol lleol Cardiff Boat Tours Ltd yn gweithredu'r Princess Katharine, tasci dŵr sydd wedi'i drwyddedu i gario hyd at 90 o deithwyr. Mae'r Princess Katharine yn cynnig y cyfle perffaith i ymwelwyr gael profiad o hanes a golygfeydd y Ddinas a'r Bae wrth deithio rhwng y ddau.

Mae gennym sylwebaeth wedi'i recordio, sy'n rhoi gwybodaeth ddiddorol iawn am hanes yr ardal, adeiladau ar hyd y ffordd, y morglawdd a'r bywyd gwyllt yn y Bae a'r afon. Mae mynd ar gwch yn brofiad cyffrous i bawb o bob oedran ac yn gyfle gwych i gael persbectif gwahanol a llawer o luniau o'r dŵr.

Mae'r criw, sydd bob amser yn ddau Feistr Cychod profiadol, yn angerddol am y cwch ac mae ganddynt wybodaeth helaeth am yr ardal.

Mae'r cwch yn gynnes yn y gaeaf ac yn oer yn yr haf, ac mae yna doiled i'r teithwyr.

Enlodd y Princess Katharine Dystysgrif Rhagoriaeth Trip Advisor i Cardiff Boat Tours yn 2016 ac maent yn y 23ain safle allan o 148 o bethau i'w gwneud yng Nghaerdydd.

Neidiwch ar y cwch ym Mae Caerdydd neu ym Mharc Bute yng nghanol y ddinas ac, ar ddiwedd diwrnod gwych o grwydro, ymlaciwch ar eich taith yn ôl. Bob awr o 10am i 4pm o Fae Caerdydd a 10.30am i 4.30pm o Barc Bute.

Ewch i'n gwefan www.cardiffboat.com neu ffoniwch ni ar 07445440874. Dilynwch ni ar Facebook a Twitter hefyd!

**COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD
RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR
NOSON Y GÊM!**



Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

